y Goleuad

CYFROL CXXXVII RHIF 46 DYDD GWENER, TACHWEDD 13, 2009 Pris 40c

SEFYDLU A MOLI

CYFARFOD SEFYDLU

Y Parchedig Marcus Wyn Robinson, B.D., yn Weinidog ar Gapel Caeathro, Henaduriaeth Arfon

Nos Iau, 1af Hydref 2009 yng Nghapel Caeathro am 7:00 yh sefydlwyd Y Parchedig Marcus Wyn Robinson fel Gweinidog ar Gapel Caeathro, yn ogystal â Chapel y Rhos, Llanrug a Chapel Cysegr, Bethel; Gofalaeth Glannau'r Saint, Henaduriaeth Arfon.

I'r chwith o'r Gweinidog – Swyddogion yr Eglwys (o'r chwith – Eryl Jones, Deiniol Hughes, Ifor Hughes, Marian Hughes, Huw Ceiriog, Clive James.
I'r dde o'r Gweinidog – cynrychiolwyr yr Henaduriaeth (o'r chwith – Parch. Elwyn Richards, Mr Clifford Owen, Llywydd; Parch. Eric Jones, Parch. Gwenda Richards.

Llywyddwyd y Cyfarfod gan Lywydd yr Henaduriaeth, Mr. Clifford Owen, a chyflwynwyd yr emynau gan Marian Hughes. Darllenwyd rhannau o'r Ysgrythur, sef Salm 78, adnoddau 1-8 a Luc 6, adnoddau 1-11, a chafwyd gweddi gan Clive James ar ran y gynulleidfa niferus, oedd yn cynnwys cyfeillion o Eglwysi y Rhos, Cysegr, y Waun a Seilo.

Ar ôl sefydlu'r Gweinidog newydd gan y Llywydd, gweddïodd Y Barchedig Gwenda Richards dros y Gweinidog, cyn i Dewi Jones ei groesawu ar ran y gymuned. Wedyn canodd Betsan Ceiriog unawd, sef Cariad Mam. Roedd y Siars i'r Gweinidog yn nwylo'r Parchedig Ddr. Elwyn Richards cyn i'r Parchedig Eric Jones weddïo ar ran yr Eglwys. Cafodd ymateb brwdfrydig a chalonogol gan y Gweinidog. Talodd Ifor Hughes air o ddiolch i bawb, gan adrodd sut y bu i'r Eglwys ymateb i gyflwr trychinebus yr adeilad hyd nes cyrraedd y llwyddiant presennol mewn adeilad cyfoes sydd hefyd yn ganolfan i bawb yn y gymuned.

Ar ôl Y Fendith gan Y Llywydd, mwynhaodd pawb wledd o luniaeth ysgafn a baratowyd gan drigolion y pentref a'r cyffuniau gyda chyfle i bawb gymdeithasu a chwrdd â'r Gweinidog dros baned.

CYSTADLEUAETH CORAU MAWL – Hydref 11eg, 2009

Diwedd Medi y llynedd cynhaliwyd y Gystadleuaeth uchod am y tro cyntaf i Gorau Ysgolion Uwchradd Ynys Môn. Y trefnydd oedd y Parchedig Geraint G. Roberts, Gweinidog Gofalaeth Porthaethwy, a chafwyd cefnogaeth arbennig. Eleni tro yr ysgolion cynradd oedd i gystadlu – ac ar brynhawn Sul braf o Hydref daeth pump o gorau i'r Capel Mawr, yn y Borth.

Gwahoddwyd tri beirniad i gloriannu'r corau – Menai Williams, Bethesda; Margaret Edwards, Betws Gwerfyl Goch a Dilwyn Price, Deganwy. Cafwyd canu ardderchog gan y pum Côr, a'r gynulleidfa yn ymateb yn dda – y dasg oedd canu tri emyn, neu dair cân grefyddol, bu i'r athrawon ddewis yn ddoeth a marciau llawn i'r plant am ddysgu'r geiriau – neb a chopi yn eu llaw – da iawn chi blant.

Tra bu'r beirniaid yn cloriannu'r corau, cafwyd eitemau gan y gwesteion – Arfon Wyn a'r 'Moniars'.

Trafodwyd beirniadaeth fêr ar bob côr gan Margaret Edwards a Dilwyn Price, wedi eu boddhau yn fawr iawn, a chanmoliaeth uchel i bawb.

Yn fuddugol daeth Ysgol Penysarn. Yn ail, Ysgol y Graig, Llangefni, ac yn drydydd, Ysgol y Borth, ac yn gydradd pedwerydd, Ysgol Amlwch ac Ysgol Llanfairpwll. Derbyniodd pob côr wobr ariannol, gyda chwpan i'r Côr buddugol.

Cafwyd prynhawn bendithiol iawn yng nghwmni'r plant ac mewn cyfnod hesb yn grefyddol, da iawn oedd inni fod yn bresennol mewn cyfarfod oedd yn codi'r ysbryd. Edrychwn ymlaen am gystadleuaeth y flwyddyn nesaf os Duw a'i myn.

Dymuna'r Parchedig Geraint Roberts ddiolch yn fawr iawn am bob cefnogaeth i'r fenter, ac i'r Ysgolion am eu parodrwydd i gystadlu.

Mrs Grace Pritchard yn derbyn y Gwpan

Y Côr Buddugol – Ysgol Penysarn